Gwirfoddoli

tra'n cael budd-daliadau

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Chwefror 2010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Beth yw gwirfoddoli? 4
Pam gwirfoddoli? 5
Beth os wyf ar fudd-daliadau?.....6
Y rheolau sylfaenol 6
Beth yw treuliau?.....7
Beth os dewisaf beidio â chael fy nhalu am fy ngwaith? 9
Sut fydd gwrifoddoli'n rhan-amser yn effeithio ar fy mudd daliadau?.....10
Lwfans Gofalwr 10
Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini.....10
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Chymhorthdal Incwm 11
Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor.....11
Lwfans Ceisio Gwaith 12
Credydau Yswiriant Gwladol.....13
Credyd Pensiwn 14
Credydau treth 14
Gwirfoddoli llawn amser 15
Cwestiynau cyffredin am wirfoddoli llawn amser.....16
Sut i fynd ati? 19
Manylion cyswllt.....21

Beth yw gwirfoddoli?

Mae'n golygu dewis rhoi o'ch amser a'ch egni i roi budd i bobl eraill heb gael eich talu amdano. Gallech wneud gwaith gwirfoddol gydag unrhyw fath o sefydliad, yn cynnwys:

- elusen, sefydliad gwirfoddol neu grŵp cymunedol
- sefydliad sector cyhoeddus, fel eich cyngor lleol
- menter gymdeithasol sy'n cefnogi eich cymuned leol, neu
- busnes lleol.

Ni chaiff ei ystyried yn wirfoddoli os byddwch:

- yn helpu aelod o'r teulu
- yn cael arian ar wahân i'ch treuliau, neu
- o dan gontract i'w wneud (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw 'gytundeb gwirfoddoli' a allai fod gennych).

Efallai y cewch dreuliau ac, mewn rhai achosion (er enghraifft, os ydych yn gwirfoddoli'n llawn amser), efallai hefyd y cewch lwfans cynhaliaeth bach am gostau bwyd a theithio neu'r ddau.

Os ydych yn cael budd-daliadau'r Wladwriaeth, gallwch fod yn wirfoddolwr ac, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd yn effeithio ar eich budd-daliadau. Fodd bynnag, effeithir ar eich budd-daliadau mewn rhai achosion - er enghraifft, os cewch lwfans cynhaliaeth neu ydych yn gwneud rhywbeth y byddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu amdano.

Lwfans cynhaliaeth

Telir rhai rhaglenni gwirfoddoli llawn amser lwfans sydd fel arfer ar gyfer bwyd, teithio a chostau byw sylfaenol. Telir y lwfans hwn gan y sefydliad gwirfoddol, nid y Ganolfan Byd Gwaith.

Os ydych yn cael budd-daliadau, dylech bob amser siarad â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau unrhyw fath o wirfoddoli.

Pam gwirfoddoli?

Mae gwirfoddoli'n helpu pobl eraill a gall hefyd eich helpu chi mewn sawl ffordd.

Gall roi siawns well i chi gael gwaith â thâl, drwy eich helpu i:

- dysgu sgiliau newydd
- yn arfer y sgiliau sydd gennych eisoes
- magu hyder
- rhoi rhywfaint o brofiad o wirfoddoli ar eich CV
- cael syniadau da gan bobl eraill
- dangos i gyflogwyr y gallwch gadw at oriau rheolaidd ac ymrwymo i'r dasg
- cyfarfod â phobl a all eich helpu i ddod o hyd i waith â thâl
- cael pethau i siarad amdanynt mewn cyfweliad swydd, a
- cael geirdaon.

Mae gwirfoddoli hefyd yn ffordd wych i chi:

- gwneud rhywbeth rydych yn ei fwynhau
- dod o hyd i ddiddordebau newydd
- cadw'n weithgar ac yn iach
- trosglwyddo eich sgiliau i bobl eraill
- cadw at arfer dyddiol
- mynd allan a chyfarfod â phobl
- rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned
- cynyddu eich hyder, a
- diolch i bobl sydd wedi gofalu am aelod o'ch teulu neu ffrind.

Beth os wyf ar fudd-daliadau?

Gwyddom y gall gwirfoddoli roi siawns well i chi o ddod o hyd i waith â thâl. Felly gallwch wirfoddoli am gynifer o oriau ag yr hoffech tra eich bod yn cael budd-daliadau cyhyd â'ch bod yn cadw at y rheolau ar gyfer eu cael.

Y rheolau sylfaenol

Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi chwilio am waith â thâl o hyd. Bydd yn rhaid i chi fod ar gael i fynd i gyfweliad os byddwn yn rhoi 48 awr o rybudd i chi. Bydd yn rhaid i chi allu dechrau gweithio o fewn wythnos i'r dyddiad y byddwn yn eich hysbysu.

Ni allwch gael arian nac unrhyw beth arall am eich gwirfoddoli. Mae'n iawn i chi gael treuliau ond bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym beth a gewch. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich derbynebau i gyd.

Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith os ydych am wneud unrhyw wirfoddoli. Byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen syml i ddweud wrthym am y math o wirfoddoli rydych am ei wneud.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gallwch gael ein manylion yn y llyfr ffôn.

Beth yw treuliau?

Treuliau yw costau rydych wedi'u talu o ganlyniad uniongyrchol i wirfoddoli. Gall treuliau fod yn bethau fel:

- tocyn bws neu drên er mwyn teithio i'r lle rydych yn gwirfoddoli ynddo ac oddi yno.
- cost llety os bydd yn rhaid i chi aros oddi cartref dros nos oherwydd eich gwirfoddoli
- cost eich prydau tra'ch bod yn gwirfoddoli
- cost unrhyw ddillad neu offer arbennig sydd eu hangen arnoch er mwyn gwirfoddoli, neu
- cost rhai treuliau gofal mewn achosion arbennig.

Mae'n iawn i chi gael eich treuliau ymlaen llaw.

Os yw'r Ganolfan Byd Gwaith yn talu eich budd-dal, bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym am y canlynol:

- eich treuliau i gyd - cofiwch gadw eich derbynebau
- unrhyw arian a gewch ar ben eich treuliau - mae hwn yn cyfrif fel enillion, ac
- unrhyw beth arall a gewch - efallai nad arian fydd hwn.

Siaradwch â'ch ymgynghorydd personol cyn i chi ddechrau gwirfoddoli. Gallant ddweud wrthych os bydd gwirfoddoli yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Os ydych yn byw gyda'ch rhieni neu bartner, gallai effeithio ar eu budd-daliadau hwy os cewch arian neu unrhyw beth arall ar ben eich treuliau.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Beth os dewisaf beidio â chael fy nhalu am fy ngwaith?

Nid yw dewis peidio â chael eich talu yr un peth â gwirfoddoli. Os ydych yn gwneud rhywbeth y byddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu amdano - er enghraifft, os ydych yn gweithio mewn busnes neu i aelod o'ch teulu a byddent fel arfer yn talu rhywun i wneud y gwaith - byddwn yn cyfrif hwn fel gwaith di-dâl ac nid fel gwirfoddoli.

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, efallai y byddwn yn penderfynu mai 'enillion tybiannol' fyddai'r hyn y byddech wedi cael.

Os byddwn yn penderfynu hyn, gall effeithio ar eich budd-daliadau a'ch credydau treth.

Byddwn yn penderfynu drwy ystyried y canlynol:

- a fyddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu i wneud yr un math o waith
- a yw eich gwaith yn helpu cymdeithas neu eich cymuned mewn unrhyw ffordd, ac
- a ydych yn gweithio i elusen neu grŵp tebyg.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Ystyr y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw

Sut fydd gwrifoddoli'n rhan-amser yn effeithio ar fy mudd daliadau?

Lwfans Gofalwr

Gallwch gael Lwfans Gofalwr o hyd os byddwch yn gwirfoddoli yn y DU ac:

- yn gofalu am berson anabl am o leiaf 35 awr yr wythnos, ac
- maent yn cael y budd-dal anabledd cywir.

Os bydd eich gwirfoddoli yn mynd â chi dramor am fwy na 4 wythnos, gallai effeithio ar eich Lwfans Gofalwr.

Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini

Ni fydd gwirfoddoli yn y DU yn effeithio ar eich Lwfans Byw i'r Anabl na'ch Lwfans Gweini.

Ni fydd gwirfoddoli dramor am lai na chwe mis yn effeithio ar eich Lwfans Byw i'r Anabl na'ch Lwfans Gweini.

Os hoffech wirfoddoli dramor dywedwch wrth y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr. Dylech hefyd ddweud wrthynt os bydd eich anghenion gofal neu'ch anawsterau cerdded yn newid.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (gweler tudalen 21).

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Chymhorthdal Incwm

Gallwch fod yn wirfoddolwr a chael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm o hyd cyhyd â'ch bod:

- yn dilyn y rheolau sylfaenol ar gyfer gwirfoddoli (gweler tudalen 6)
- yn gallu mynd i gyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith o hyd pan fyddwn yn gofyn i chi wneud hynny, ac
- yn dweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau, i roi gwybod iddynt am unrhyw dreuliau y gallech eu cael.

I gael gwybod sut i gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gallwch gael ein manylion yn y llyfr ffôn.

Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor

Fel arfer cewch Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor (neu'r ddau) os ydych yn cael Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Pensiwn, neu os oes gennych incwm isel.

Gallwch gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor o hyd os byddwch yn dilyn y rheolau sylfaenol ar gyfer gwirfoddoli. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol am unrhyw wirfoddoli a wnewch, ac unrhyw dreuliau a gewch.

Lwfans Ceisio Gwaith

Gallwch fod yn wirfoddolwr a chael Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm o hyd cyhyd â'ch bod:

- yn dilyn y rheolau sylfaenol ar gyfer gwirfoddoli (gweler tudalen 6)
- wrthi'n chwilio am waith â thâl llawn amser o hyd
- ar gael i weithio (neu'n cael eich trin fel petaech ar gael i weithio)
- yn gallu mynd i gyfweliad os cewch 48 awr o rybudd
- yn gallu dechrau swydd o fewn wythnos, ac
- yn dweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau, ac yn dweud wrthynt am unrhyw dreuliau y gallech eu cael.

Os ydych wedi bod yn ddi-waith am chwe mis, efallai y gallech gael cymorth ychwanegol os ydych yn ystyried gwirfoddoli. Siaradwch â'ch ymgynghorydd personol i weld yr hyn sydd ar gael yn eich ardal.

Credydau Yswiriant Gwladol

Fel arfer cewch gredydau Yswiriant Gwladol os ydych yn cael budd-dal fel Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Gofalwr.

Dylech barhau i'w cael fel gwirfoddolwr.

Ni chewch gredydau Yswiriant Gwladol dim ond am eich bod yn wirfoddolwr. Ond gallech gael credydau Yswiriant Gwladol hyd yn oed os nad ydych yn cael budd-daliadau. Gallech eu cael os ydych wedi'ch rhestru fel petaech wrthi'n chwilio am waith ac ar gael i weithio, neu os na allwch weithio oherwydd salwch neu anabledd.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Ystyr y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw

Llinell gymorth credydau treth

Ffôn: 0845 302 1489

Ffôn testun: 0845 300 3909

Ar agor 8am i 8pm bob dydd.

Gallwch hefyd ymweld â www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Credyd Pensiwn

Ni ddylai bod yn wirfoddolwr yn y Deyrnas Unedig effeithio ar eich Credyd Pensiwn mor belled ag y bydd yr arian rydych yn ei gael yn dreuliau yn unig. Ond os byddwch yn mynd dramor fel gwirfoddolwr am fwy na 13 wythnos ar y tro, gallai eich Credyd Pensiwn gael ei atal. Dylech ddweud wrth Y Gwasanaeth Pensiwn os ydych yn mynd dramor am unrhyw reswm.

Credydau treth

Credyd Treth Gwaith

Mae'n rhaid eich bod mewn gwaith â thâl am o leiaf nifer penodol o oriau yr wythnos i gael Credyd Treth Gwaith. Nid yw'r oriau rydych yn gwirfoddoli yn cyfrif tuag eich oriau gwaith wythnosol.

Os ydych chi neu'ch partner yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc, neu os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud yn anoddach i chi gael swydd, mae'n rhaid i chi fod yn gweithio am o leiaf 16 awr yr wythnos.

Fel arall, mae'n rhaid eich bod yn 25 oed neu drosodd ac yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos.

Credyd Treth Plant

Mae faint o Gredyd Treth Gwaith a gewch yn seiliedig ar eich incwm. Gallech fod yn ei gael, p'un a ydych yn gweithio ai peidio, os ydych chi neu eich partner yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc sy'n byw gyda chi fel arfer.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 23

Ni fydd bod yn wirfoddolwr yn effeithio ar faint o Gredyd Treth Plant a gewch.

Gwirfoddoli llawn amser

Os dewch yn wirfoddolwr llawn amser, efallai y cewch:

- lwfans cynhaliaeth llawn amser ar gyfer bwyd, teithio a chostau byw sylfaenol.
- rhywle i fyw, os bydd yn rhaid i chi fyw oddi cartref
- cyfle i gysylltu'r gwirfoddoli a wnewch â chymhwyster, a
- help gyda chostau gofal plant, os bydd angen i'ch plant gael gofal tra byddwch yn gwirfoddoli.

Telir y lwfans cynhaliaeth gan y sefydliad gwirfoddol, nid y Ganolfan Byd Gwaith.

Cwestiynau cyffredin am wirfoddoli llawn amser

C A allaf gael lwfans cynhaliaeth llawn amser yn ogystal â'm budd-daliadau?

A Ddim fel arfer. Fodd bynnag, ni fydd lwfans cynhaliaeth yn effeithio ar eich Lwfans Byw i'r Anabl neu'ch Lwfans Gweini.

Ni fydd ychwaith yn effeithio ar eich Lwfans Gofalwr, ond byddai angen i chi ofalu am berson anabl o hyd am o leiaf 35 awr yr wythnos.

Efallai y cewch Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor yn dibynnu ar y lefel o incwm a faint o rent a threth cyngor a dalwch.

C A allaf wirfoddoli'n llawn amser os caf Lwfans Ceisio Gwaith?

A Gallwch, mor belled ag y byddwch yn bodloni'r rheolau ar gyfer cael Lwfans Ceisio Gwaith, fel bod ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith (gweler tudalen 12).

Os ydych yn gwirfoddoli ac am gael lwfans cynhaliaeth llawn amser, efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Siaradwch â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn dechrau gwirfoddoli.

C Os bydd yn rhaid i mi roi'r gorau i hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, beth fydd yn digwydd i'm budd-daliadau eraill, fel Budd-dal Tai?

A Os oeddech yn cael Budd-dal Tai cyn Lwfans Ceisio Gwaith, efallai y gallwch ei gael o hyd. Siaradwch â'ch ymgynghorydd personol i gael rhagor o fanylion.

C A allaf wirfoddoli'n llawn amser os wyf yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm?

A Gallwch. Ni fydd unrhyw dreuliau rhesymol rydych yn ei gael effeithio ar eich budd-dal.

Os byddwch yn gwirfoddoli ac am gael lwfans cynhaliaeth llawn amser, efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm.

Os ydych ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gymhorthdal Incwm, gofynnwch i'ch ymgynghorydd personol bob amser am ragor o wybodaeth am waith a ganiateir.

C A fydd gwirfoddoli oddi cartref yn effeithio ar fy mudd-dal?

A Os ydych ar Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, neu'n cael Cymhorthdal Incwm am eich costau tai, efallai y gallwch fyw oddi cartref am hyd at 13 wythnos a chael eich budd-dal o hyd. Bydd ymgynghorydd yn gallu esbonio'r rheolau am hyn.

Os byddwch oddi cartref am fwy na 13 wythnos, fel arfer bydd y budd-daliadau hyn yn dod i ben. Fod bynnag, gallant barhau am hyd at 52 wythnos mewn rhai amgylchiadau eithriadol.

Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr ac yn gwirfoddoli oddi cartref, gallwch gael budd-dal ond mae'n rhaid i chi fod yn gofalu am berson anabl o hyd am o leiaf 35 awr yr wythnos.

C A oes rhaid i mi dalu treth neu Yswiriant Gwladol ar y lwfans cynhaliaeth llawn amser?

A Nid os mai hwnnw yw eich unig incwm.

C Beth am dreth os wyf yn cael lwfans cynhaliaeth llawn amser ac yn gwneud gwaith â thâl?

A Os yw'r lwfans a'ch cyflogau yn mynd â chi dros y trothwy di-dreth, bydd yn rhaid i chi dalu treth.

Sut i fynd ati?

1 Bydd gan Ganolfan Wirfoddoli fanylion am leoedd sydd angen gwirfoddolwyr. Gallwch gael manylion cyswllt eich Canolfan Wirfoddoli agosaf ar dudalen 20.

Gallwch fynd am sgwrs anffurfiol neu drefnu cyfweliad manylach gydag un o'r staff i drafod yr hyn rydych am ei wneud.

2 Os gwyddoch i bwy rydych am wirfoddoli, gallwch gysylltu â hwy'n uniongyrchol.

Mae gan lawer o sefydliadau gydgysylltydd gwirfoddolwyr a fydd yn trafod cyfleoedd gyda chi. Gall hyn eich helpu i wneud y defnydd gorau o'ch galluoedd.

3 Ymhlith y ffyrdd eraill o gael gwybod beth y gallwch ei wneud mae:

- holi ffrindiau a theulu
- edrych yn eich llyfrgell neu ganolfan gymunedol leol
- chwilio ar y rhyngrwyd, neu
- cadw golwg am sefydliadau a allai fod yn chwilio am wirfoddolwyr mewn papurau newydd lleol ac ar y radio.

Mae llawer o gyfleoedd gwahanol ar gael, felly mae'n werth cymryd amser i chwilio am rywbeth sy'n addas i chi. Drwy sgwrsio â ffrindiau neu'r Ganolfan Wirfoddoli, gallech gael gwybod am rywbeth nad oeddech wedi'i ystyried.

Am ragor o wybodaeth am fod yn wirfoddolwr yn eich ardal, cysylltwch â'ch Canolfan Wirfoddoli neu Asiantaeth Datblygu Gwirfoddolwyr leol. Mae eu manylion yn y llyfr ffôn.

Gwefannau defnyddiol:

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:
Gwefan: www.volunteering-wales.net

Volunteering England:
Gwefan: www.volunteering.org.uk/finder

Volunteer Development Scotland:
Gwefan: www.volunteerscotland.org.uk

Manylion cyswllt

Y Ganolfan Byd Gwaith

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, ewch i www.direct.gov.uk/cy neu gallwch gael ein manylion yn y llyfr ffôn.

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau

Gwasanaeth ffôn cyfrinachol yw hwn i bobl anabl a gofalwyr.

Ffôn: 0800 882 200

Ffôn testun: 0800 243 355

Ar agor 8.30am i 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

Directgov

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bynciau yn amrywio o ddiogelwch teithio i anghenion addysgol arbennig a gwasanaeth lleol y GIG.

Ewch i www.direct.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 23

Llinell gymorth credydau treth

I gael cyngor am Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

- Ffôn 0845 302 1489
- Ffôn testun: 0845 300 3909

Ar agor o 8am i 8pm.

Neu ewch i: www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Y Gwasanaeth Pensiwn

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol am bensiynau.

- Ffôn: 0845 60 60 265
- Ffôn testun: 0845 60 60 285

Ar agor 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Neu ewch i: www.direct.gov.uk/pensiynau

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 23

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae ein rhifau ffôn tesun ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bynciau yn amrywio o fudd-daliadau i drwyddedau gyrru a gwasanaethau lleol y GIG. Ewch i

www.direct.gov.uk/cy

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-055-1
DWP1023W | f2.1 (Chwefror 2010) | v2.1 (February 2010)